# Ymchwil gyda busnesau bach ac adeiladau gwag - arolwg a chyfweliadau gyda busnesau

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Ganolfan Strategaethau Economaidd Lleol (CLES) i gynnal ymchwil ar fusnesau bach ac eiddo gwag yng nghanol trefi. Nod y prosiect ymchwil hwn yw edrych ar sut mae busnesau bach yng Nghymru yn mynd ati i ddod o hyd i eiddo busnes, pa broblemau neu rwystrau y maent yn eu hwynebu wrth gael mynediad i siopau gwag ac eiddo yng nghanol trefi, a pha gymorth neu gefnogaeth a ddefnyddir neu sydd angen eu datblygu i helpu busnesau bach i gael mynediad i eiddo gwag ar y stryd fawr ac, yn y pen draw, i leihau nifer y lleoedd gwag.

Fel rhan o'r ymchwil hwn bydd CLES yn casglu gwybodaeth trwy arolwg a grwpiau ffocws gyda busnesau bach.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd CLES yn dileu unrhyw ddata personol a ddarperir drwy'r arolwg busnesau a'r grwpiau ffocws, ac yn gwneud y data crai yn ddienw, cyn iddo gael ei rannu â Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan CLES a Llywodraeth Cymru.

Mae eich cyfranogiad yn yr ymchwil hwn yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiadau yn bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Y cyswllt ar gyfer yr ymchwil hwn yn CLES yw Stuart MacDonald (Cyfarwyddwr Cyswllt, Cymru)
Cyfeiriad e-bost: stuartmacdonald@cles.org.uk
Rhif ffôn: 0161 832 7871

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol sydd gennym ni ac o ble rydyn ni’n cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR) fel unrhyw wybodaeth sy’n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddyfais adnabod.

Mae CLES yn darparu dolen ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Busnes Cymru sy’n arwain at arolwg ar fusnesau bach ac eiddo gwag yng nghanol trefi. Ni fydd eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP yn cael eu nodi pan fyddwch yn cwblhau’r arolwg, felly bydd yr ymatebion yn ddienw. Os dewiswch gynnwys data personol ychwanegol fel rhan o’r arolwg byddwn yn ymdrechu i’w gwneud yn amhosibl cysylltu eich ymatebion â chi’n bersonol.

Mae CLES yn awyddus i ffurfio grŵp ffocws er mwyn trafod y materion mewn mwy o fanylder. Os ydych chi eisiau cyfrannu, bydd cyfle ar ddiwedd yr arolwg i chi nodi eich enw a’ch cyfeiriad e-bost fel bo modd i CLES eich gwahodd i ymuno â’r grŵp ffocws. Ni fydd rhaid i chi ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol os ymunwch, ond mae’n bosibl y byddech yn ymddangos mewn recordiad fideo o’r grŵp os cytunwch i ni wneud hynny.

Bydd CLES yn anfon dolen i'r arolwg trwy e-bost. Nid yw cwblhau'r arolwg yn golygu y bydd eich cyfeiriad e-bost na'ch cyfeiriad IP yn cael eu cofnodi ac felly bydd yr ymatebion yn ddienw. Os byddwch yn dewis darparu data personol ychwanegol fel rhan o’r arolwg byddwn yn ceisio peidio â’ch adnabod o’r ymatebion a roddwch, na chysylltu eich manylion â’r atebion a roddwch.

Mae CLES yn dymuno trafod materion yn fanylach mewn grŵp ffocws. Os ydych yn fodlon cymryd rhan, yna bydd cyfle ar ddiwedd yr arolwg i roi eich cyfeiriad e-bost fel y gall CLES eich gwahodd i’r grŵp ffocws. Os byddwch yn bresennol yn y grŵp ffocws yna nid oes unrhyw ofynion i ddarparu unrhyw ddata personol ychwanegol ac eithrio eich delwedd os ydych yn cytuno i'r grŵp ffocws gael ei recordio ar fideo.

Efallai y byddwn yn recordio'r grŵp ffocws am resymau gweithredol. Os felly, byddwn yn gwneud hyn yn glir i chi cyn i'r grŵp ffocws ddechrau, a chewch gyfle i ddweud wrthym os nad ydych yn fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Dim ond os nad oes neb yn gwrthwynebu y byddwn yn recordio'r grŵp ffocws. Os bydd y drafodaeth yn cael ei recordio, bydd data personol yn cael ei ddileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd recordiadau'n cael eu dileu cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi'i chwblhau. Os na chaiff trafodaethau eu cofnodi, ni fydd data personol yn cael ei gynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn dilyn y cyfweliadau.

Os byddwch yn gwneud ymholiad neu gŵyn ac yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais ymlaen, ac yna bydd yn ei ddileu o ddata'r ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithlon dros ddefnyddio'ch data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu ar ei sail am ei gallu i gyflawni blaenoriaethau’r llywodraeth. Gallai’r wybodaeth a gesglir yn yr ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i lunio dulliau polisi yn y dyfodol ynghylch canol trefi ac eiddo gwag.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth bersonol a ddarperir i CLES bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sy'n gallu cyrchu'r data. Dim ond at ddibenion ymchwil y bydd CLES yn defnyddio'r data hwn. Mae gan CLES ardystiad hanfodion seiber.

Wrth gynnal arolygon, mae CLES yn defnyddio rhaglen feddalwedd cynnal arolwg o'r enw Smart Survey. Rydym wedi sicrhau bod Smart Survey yn cydymffurfio â GDPR y DU ac yn bodloni ein disgwyliadau o ran diogelwch unrhyw ddata a gesglir trwy’r feddalwedd.

Mae gan CLES weithdrefnau er mwyn delio ag unrhyw amheuaeth o dorri diogelwch data. Os bydd amheuaeth o dorri diogelwch, bydd CLES yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am hyn, a bydd y Llywodraeth yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys lle mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Bydd CLES yn defnyddio’r wybodaeth a gesglir i gynhyrchu adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw ddata y gellir ei ddefnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

### Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich data personol?

Bydd CLES yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad yw eisoes wedi’i ddileu yn ystod cyfnod trawsgrifio a dadansoddi’r arolwg yn cael ei ddileu gan CLES dri mis ar ôl diwedd y contract. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd CLES yn darparu fersiwn dienw o'r data i Lywodraeth Cymru na fydd yn cynnwys gwybodaeth a allai ddatgelu pwy ydych chi.

### Hawliau unigolion

O dan GDPR y DU, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r ymchwil hwn ar fusnesau bach ac adeiladau gwag. Mae gennych yr hawl:

- I gael mynediad at gopi o'ch data eich hun;
- I ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- I wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu (o dan rai amgylchiadau);
- I'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau); ac
- I gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, cysylltwch ag:

Enw: Rebecca Askew
Cyfeiriad e-bost: Rebecca.Askew001@llyw.cymru
Rhif ffôn: 03000 250438

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales.